

## Cyfarfod Gweinidogol y Trydydd Sector gyda Gweinidog yr Economi a Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip

Nodiadau'r cyfarfod ar 26 Mai 2022

### Rhestr o Fynychwyr

#### Enw

San Leonard (**SL**)  
Lloyd Williams (**LW**)  
Ben Lloyd (**BL**)  
Matthew Brown (**MB**)  
Derek Walker (**DW**)  
Gareth Coles (**GC**)  
Gurmit Singh Randhawa (**GR**)  
Sue Husband (**SH**)  
Lisa Wills (**LW**)  
Matthew Williams (**MW**)  
Tabea Wilkes (**TW**)  
Hazel Lloyd Lubran (**HL**)  
Phil Lewis (**PL**)

#### Sefydliad

Cwmnïau Cymdeithasol Cymru  
Tîm Cymorth Ieuencid Ethnig (EYST)  
CGGC  
CGGC  
Cwmpas  
Creative Lives  
Cyngor Rhyng-ffydd Cymru  
Busnes yn y Gymuned  
Y Ffatri Gelf  
Cymdeithas Chwaraeon Cymru  
Cyswllt Amgylchedd Cymru  
Cyngor Gwirfoddol Sirol Cymru  
Parc Rhanbarthol y Cymoedd

#### Llywodraeth Cymru

Vaughan Gethin AS (**MEcon**)  
Dawn Bowden AS (**DMASCW**)

Andrew Chapman (**AC**)  
Alison Sandford (**AS**)  
Janet Owen Jones (**JJ**)  
Elizabeth Crowther (**EC**)  
Steffan Roberts (**SR**)  
Lisa Claridge (**LC**)  
Gail Merriman (**GM**)  
Paul Kindred (**PK**)

Gweinidog yr Economi (Cadeirydd)  
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon,  
a'r Prif Chwip (Cadeirydd)  
Llywodraeth Cymru (Ysgrifenyddiaeth)  
Llywodraeth Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Llywodraeth Cymru

### Eitem 1 ar yr Agenda – Croeso / Cyflwyniad

Croesawodd **DMASCW** bawb i'r cyfarfod a dywedodd nad oedd angen cyflwyniadau ffurfiol. Nododd ei bod yn gadarnhaol bod cynifer o bobl yn cymryd rhan yn yr alwad a nodwyd bod tair prif eitem ar yr agenda y byddai angen ymdrin â nhw yn yr amser a oedd ar gael. Rhoddodd **DMASCW** wybod i'r mynychwyr fod **MEcon** ar

ddyletswydd yn rhywle arall ac y byddai'n ymuno ymhen ychydig. Gofynnodd **DMASCW** i **MW**, o Gymdeithas Chwaraeon Cymru, gyflwyno'i bapur.

## **Eitem 2 ar yr Agenda – Asedau a Chyfleusterau Cymunedol:**

Matthew Williams, Cymdeithas Chwaraeon Cymru, Gareth Coles, Creative Lives.

Diolchodd **MW** i'r grŵp a **DMASCW** am dderbyn y papur, a gafodd ei ysgrifennu ar y cyd â **GC**. Roedd y papur yn cwmpasu nifer o faterion y mae sefydliadau chwaraeon, diwylliant a ffydd, a sefydliadau cymunedol eraill, yn eu hwynebu yn sgil y pandemig. Esboniodd **MW** sut roedd problemau yn ymwneud â hygyrchedd, argaeledd a diffyg cynnal a chadw yn cael effaith negyddol gynyddol ar weithgareddau lleol.

Yn ogystal, nododd **MW** fod problemau ehangach wedi codi ynghylch y ffaith nad yw gwirfoddolwyr wedi dychwelyd i'r sector ar ôl y pandemig. Roedd yr argyfwng costau byw, yn enwedig y cynnydd ym mhrisiau ynni, yn cael effaith niweidiol ar weithgareddau grŵp ar lawr gwlad (gyda llawer o sefydliadau lleol yn ei chael yn anodd creu digon o incwm i dalu'r costau cynyddol ar gyfer eu hadeiladau eu hunain, neu'r rheini y maent yn eu rhentu).

Rhoddodd **MW** sylw i enghreifftiau cadarnhaol diweddar, gan gyfeirio at symiau bach o gyllid grant a ddyrennir gan Chwaraeon Cymru, a gofynnodd a fyddai modd cymryd camau tebyg ar gyfer y sector diwylliannol, ac ar draws y maes portffolio yn ehangach, er mwyn wynebu'r her hon. Awgrymodd **MW** hefyd fod yr wybodaeth sydd ar gael am y lleoliadau bach (sydd yn aml yn cael eu cynnal gan sefydliadau a grwpiau ffydd) yn gyfyngedig, ac y dylid gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru (drwy ddull aml-bartneriaeth) i gynnal archwiliad o'r sefydliadau a'r problemau ar lawr gwlad.

Ategodd **GC** y prif broblemau yr oedd **MW** wedi'u codi, ac awgrymodd y byddai angen ymateb iddynt drwy ddull cydweithredol.

Myfyriodd **DMASCW** ar y problemau yr oedd **MW** a **GC** wedi'u cyflwyno. Awgrymodd **DMASCW** y dylid rhoi sylw manwl i'r papur a llunio ymateb ysgrifenedig iddo (oherwydd bod terfyn ar amser y cyfarfod a bod y problemau'n eang eu cwmpas).

Amlinellodd **DMASCW** sut roedd Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod symiau mawr o gyllid ar gael i'r sector chwaraeon a'r sector diwylliant yn ystod y pandemig, gyda'r nod o alluogi sefydliadau i dyfu ac i ddatblygu ar ôl iddo ddod i ben. Esboniodd **DMASCW** hefyd sut roedd Llywodraeth Cymru yn defnyddio pob dull o ddylanwadu a oedd ar gael iddi i helpu'r bobl hynny yr oedd yr argyfwng costau byw yn effeithio arnynt fwyaf. Byddai'n dda hefyd pe byddai modd cael darlun cliriach o'r sefyllfa gyfredol o ran cyfleusterau cymunedol.

Roedd yn bwysig hefyd fod sefydliadau'n ystyried gwneud cais am gymorth drwy'r rhaglen Cyfleusterau Cymunedol, yn enwedig yn achos problemau sy'n ymwneud ag

adeiladau neu waith atgyweirio. Mae Llywodraeth Cymru ar effro i'r problemau mae'r cynnydd mewn costau rhedeg yn eu peri, yn enwedig pan fo costau'n cael eu pasio ymlaen i grwpiau defnyddwyr. Nododd **DMASCW** ei bod yn bwysig sicrhau nad yw'r bobl hynny sydd eisoes yn ei chael yn anodd cymryd rhan mewn gweithgareddau yn cael eu hallgáu ohonynt ymhellach.

Roedd **MW** a **GC** yn croesawu adborth **DMASCW**.

### **Pwynt Gweithredu – Swyddogion i ystyried y papur a ddarparwyd gan MW a GC a llunio ymateb ysgrifenedig iddo.**

#### **Eitem 3 ar yr Agenda – Y Papur Gwyn Ffyniant Bro:**

Matthew Brown, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

Esboniodd **MB** sut roedd yr amgylchiadau o safbwynt y Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi newid ychydig ers i'r papur gael ei ysgrifennu'n wreiddiol. Serch hynny, mae'r negeseuon cyffredinol a amlinellir yn y papur yn parhau i fod yn berthnasol.

Atgoffodd **MB** y grŵp fod yr adroddiad yn rhoi sylw i broblemau i'r trydydd sector yng Nghymru o ganlyniad i gyhoeddi Papur Gwyn Ffyniant Bro Llywodraeth y DU, ynghyd â phroblemau gyda phrosesau sy'n ymwneud â'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Tynnodd **MB** sylw at y ffaith y bydd cyllid o Gronfa Cymdeithasol Ewrop yn dod i ben yn fuan. Bydd hyn yn achosi nifer o broblemau (yn achos rhaglen Cynhwysiant Gweithredol CGGC er enghraifft). Byddai'n fanteisiol pe gellid symud ffocws cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn ôl i Ebrill mewn modd ôl-weithredol. Soniodd **MB** hefyd am y pryderon a rannwyd mewn perthynas â'r amserlen a sut y gallai olygu bod llai o gyfathrebu'n digwydd â'r trydydd sector. Byddai'n ddefnyddiol sicrhau cefnogaeth y Gweinidogion er mwyn cryfhau llais y trydydd sector yn ystod trafodaethau, a fydd yn cael eu cynnal ar lefel ranbarthol.

Esboniodd **MB** hefyd ei bod yn bwysig sicrhau bod cyllid a phrosesau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn dryloyw. Gofynnodd a fyddai'n bosibl i'r trydydd sector a Llywodraeth Cymru gyllido rhai rhaglenni a phrosiectau ar y cyd, a hynny er mwyn targedu blaenoriaethau allweddol.

Diolchodd **DMASCW** i **MB** am y papur a nododd sut roedd y Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi peri heriau mawr. Mae hyn hefyd yn berthnasol i'r trydydd sector, sydd wedi codi problemau ynghylch cael mynediad uniongyrchol i gyllid o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Ymunodd **MEcon** â'r cyfarfod ac esboniodd nifer o anawsterau allweddol sydd wedi deillio o'r ffaith bod Llywodraeth y DU wedi bod yn hwyr yn cynnal deialog ystyrllon â Llywodraeth Cymru, a nododd y byddwn yn wynebu amserlenni heriol.

Dywedodd **MEcon**, wrth symud ymlaen, fod cyflawni cynlluniau buddsoddi o fewn amserlenni yn eithriadol o uchelgeisiol. Bydd **MEcon** yn cynnal cyfarfod â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fel y gellir sicrhau bod y drafodaeth yn canolbwyntio ar gyfraniadau'r trydydd sector. Soniodd **MEcon** am y ffaith mai lefel ranbarthol sydd fwyaf priodol o dan yr amgylchiadau, oherwydd mai'r dewis arall fyddai cynlluniau unigol a chynigion cysylltiedig fesul awdurdod. Caiff her onest ei

chyhoeddi er mwyn galluogi'r trydydd sector i gymryd rhan. Mae Cwmpas Cymru'n rhan o hyn hefyd. Mae awdurdodau lleol yn ymwybodol o'r heriau a wynebir.

Amlinellodd **MEcon** sut y gellid rheoli'r gweithgareddau ymgysylltu (mewn partneriaeth), gan ganolbwyntio ar greu grŵp ehangach o randdeiliaid a allai ystyried sut mae cynlluniau'n cael eu datblygu a'u gweithredu. Byddai hyn yn lleihau nifer y cyfarfodydd ac yn ddull uniongyrchol ac ymarferol. Bydd pwysau hefyd ar yr hyn y gellir ei gyllido o dan y Gronfa Ffyniant Gyffredin ac mae'n bosibl na fydd pethau sydd o werth gwirioneddol yn dod o dan ei chwmpas yn uniongyrchol.

Atgoffodd **MEcon** y grŵp am y pwysau y mae Llywodraeth Cymru o danynt o ganlyniad i Ddatganiad y Gwanwyn a'r lefelau chwyddiant presennol. Roedd **MEcon** yn cefnogi'r rhan y gallai'r trydydd sector ei chwarae ynghyd â'i ddylanwad ar lefel genedlaethol.

Croesawodd **DW** y syniad o grŵp rhanddeiliaid. Byddai'n rhoi sedd i'r trydydd sector wrth y bwrdd ynghyd ag asgwrn cefn ar gyfer trafodaethau ar lefel ranbarthol a ledled Cymru, gan gyflwyno modd cydlynol o weithredu. Soniodd **DW** y gall fod yn werth ystyried y posibilrwydd o ddarparu arian cyfatebol drwy gyllid gan Lywodraeth Cymru, os oes cyllid ar gael, i gyd-fynd â buddsoddiadau rhanbarthol, ac i gyflawni gwerthoedd a rennir.

Nododd **MEcon** ei fod yn parhau i fod yn optimistaidd er gwaethaf yr heriau sydd ynghlwm wrth y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Mae'n bosibl y bydd angen cynnal rhagor o drafodaethau ag awdurdodau lleol mewn perthynas â chymorth busnes nad yw'r gronfa ganolog yn ei gwmpasu. Yn ogystal, atgoffodd **MEcon** y grŵp am y rhaglen Multiplu (Llywodraeth y DU). Pwysleisiodd **MEcon** bwysigrwydd buddsoddi yn y bobl, y cymunedau a'r sectorau cywir er mwyn gwneud gwahaniaeth ac i barhau i geisio dylanwadu ar benderfyniadau er mwyn sicrhau bod y cyllid yn helpu'r bobl hynny y mae ei angen arnynt fwyaf. Mae creu cynlluniau o fewn amserlenni o'r fath yn heriol, ac awgrymodd **MEcon** y dylai'r angen i fod yn hyblyg fod ymhlith yr ystyriaethau pennaf o ran cyflawni blaenoriaethau dros y blynyddoedd sydd i ddod.

### **Economi sy'n Fuddiol i Natur drwy Atebion sy'n Seiliedig ar Natur:**

Tabea Wilkes, Cyswllt Amgylchedd Cymru.

Amlinellodd **TW** gyfres o argymhellion polisi ar gyfer cyflawni economi sy'n fuddiol i natur. Roedd hyn yn cynnwys cynigion ynghylch y tair prif thema, sef galluogi busnesau i ffynnu mewn economi sy'n seiliedig ar natur, datblygu fframwaith polisi eglur ar gyfer buddsoddiadau preifat ym myd natur, a sbarduno trawsnewid cyfiawn tuag at weithlu gwyrdd drwy Wasanaeth Natur Gwladol. Croesawodd **TW** y datblygiadau diweddar iawn ynghylch y Gwasanaeth Natur Gwladol a'r cyfleoedd a allai godi o ganlyniad iddynt. Eglurodd **TW** hefyd y cysylltiad rhwng y Gwasanaeth Natur Gwladol a Pharc Rhanbarthol y Cymoedd. Yn ogystal, siaradodd **TW** am yr angen i greu cysylltiadau rhwng buddsoddiadau preifat a chyhoeddus er lles bioamrywiaeth ac adferiad byd natur.

Dywedodd **MEcon** ei fod wedi cwrdd â **TW** yn ddiweddar a bod y papur wedi cyfrannu at ran fawr o'r uchelgais presennol sy'n cynnwys sawl elfen allweddol.

Nododd **MEcon** ei bod yn bwysig cynnal trafodaethau ar draws adrannau oherwydd bod byd natur yn fater sy'n berthnasol i bob portffolio.

Nododd **MEcon** fod Llywodraeth Cymru eisoes yn ymgymryd â chynllun peilot y Gwasanaeth Natur Gwladol a'i bod yn bwysig meddwl am y cynnydd a wnaed. Esboniodd **MEcon** fod creu economi wyrddach yn golygu llawer mwy na gosod tyrbinau, a soniodd hefyd am her sefydlu dangosyddion amgylcheddol cadarn.

Dywedodd **MEcon** ei bod yn bwysig gwneud rhagor o feddwl ynghylch sut mae'r cynigion yn cael eu mesur a sut y pennir gwerth iddynt. At hynny, mae angen ystyried sut i bennu gwerth i unrhyw beth sydd y tu allan i'r cynigion hynny. Rhaid sicrhau bod penderfyniadau i fuddsoddi yn seiliedig ar sefydlu cerrig milltir clir.

Esboniodd **MEcon** bwysigrwydd gwneud yn siŵr bod drysau swyddogion yn parhau i fod ar agor, a phwysigrwydd gweithio ar ddatblygiadau mewn perthynas â pheilot y Gwasanaeth Natur Gwladol.

Nododd **PL** ei ddiolch i **MEcon** am y cyfle i drafod y datblygiadau ynghylch cynllun peilot y Gwasanaeth Natur Gwladol a'i gysylltiad â rhaglen Parc Rhanbarthol y Cymoedd. Dywedodd **PL** y cafwyd mewnbwn gwerthfawr gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, a Cwmpas hefyd, o ran cyflawni prawf o gysyniad. Amlinellodd **PL** y ffordd yr oedd wedi creu cysylltiadau â rhwydweithiau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol er mwyn edrych ar gynaliadwyedd a chynnydd.

Nododd **TW** yr hoffai wybod beth yw rôl y Llywodraeth o safbwynt nodi buddsoddiadau preifat a sut y gallai hynny lenwi bylchau. Byddai **TW** yn croesawu unrhyw wybodaeth bellach am y pwnc.

Tynnodd **MEcon** sylw at faterion yn ymwneud â gwyrddgalchu, yn enwedig mewn perthynas â defnyddio tir a sut y cyflawnir y bwriad polisi o'i gymharu â rheoli tir. Amlinellodd **MEcon** hefyd y graddau y mae agenda Cymru yn cyd-fynd ag agenda ehangach y DU, a'r ffaith nad oedd Cymru, ar hyn o bryd, yn profi unrhyw fanteision uniongyrchol gyda'r systemau sydd ar waith ar hyn o bryd.

Esboniodd **MEcon** fod hyn yn ymwneud â chreu marchnad a strwythur yng Nghymru er mwyn ailfuddsoddi cyllid ym maes adfer natur. Nododd **MEcon** fod yr amseru'n dda ar hyn o bryd oherwydd bod y cyhoedd wedi'u cysylltu â'r amgylchedd o'u cwmpas. Fodd bynnag, ceir heriau o hyd sy'n ymwneud â gostyngiadau mewn cyllid, a newidiadau iddo, sy'n gysylltiedig â Brexit.

## **Unrhyw fusnes arall**

Nid oedd unrhyw fusnes arall.

### Comments from meeting chat:

[09:55]

09:55 Meeting started

[10:19] Hazel Lloyd Lubran

I'm happy to ask TSSW colleagues to support the Audit process with others - would be a vital next step.

[10:22] Hazel Lloyd Lubran

We've initially started scoping how we can "shift" existing or upcoming grant programmes to support community venues with increasing energy costs - Pen y Cymoedd and Comic Relief being a couple. Intelligence from applications may help inform the audit.

[10:54]

10:54 Meeting ended: 59m 44s